yr eiddo er mwyn gallu gwahanu'r ardd a'r hawl tramwy preifat sydd yn rhedeg heibio'r safle. Er y byddai'r ffens yn 1.8m o uchder, ni chredir y byddai'n cael effaith andwyol ar edrychiad na chymeriad yr eiddo na'r rhesdai gan ei fod hefyd o fath y gall ei dynnu heb adael difrod.

5.5 Felly, o edrych ar y bwriad yn ei gyfanrwydd ni ystyrir fod y gwaith dymchwel, graddfa'r estyniadau, y dyluniad, ei nodweddion na'r deunyddiau a awgrymir (ac y gellir eu sicrhau drwy amod) yn debygol o achosi niwed arwyddocaol i gymeriad pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr Adeilad Rhestredig hwn nac ychwaith am achosi niwed i gymeriad arbennig yr adeiladau rhestredig eraill sydd o fewn y rhesdai ac yn gyfagos i safle'r cais. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion polisïau B2 a B3 o GDUG. Mae Cylchlythyr 61/96 yn datgan "ni ddylai estyniadau modern ddominyddu'r adeilad sy'n bodoli o ran graddfa, deunydd na lleoliad" ac ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio gyda'r cyngor perthnasol o fewn y Cylchlythyr.

## 6. Yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus

6.1 Mae peth pryder yn bodoli ynglŷn â'r hawl tramwy preifat sydd yn rhedeg drwy'r safle, a rhaid datgan nad yw hwn yn ymddangos yn fater cynllunio ond yn hytrach yn fater sifil. Mae pryder hefyd wedi datgan am y posibilrwydd i'r adeilad allanol gael ei rannu i greu uned byw arwahan yn y dyfodol, ond unwaith eto nid yw hyn yn rhan o'r cais ac felly nid yw'r gwrthwynebiadau yma yn ystyriaeth berthnasol yn yr achos hwn.

## 7. Casgliadau:

7.1 Ystyrir bod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt egwyddor ac ni chredir ei fod yn debygol o amharu'n ormodol ar edrychiad, cymeriad na gosodiad y rhesdai oherwydd ei leoliad yn y cefn. Fel y datganwyd uchod, mae polisi B2 yn caniatáu cynigion am newidiadau i adeiladau rhestredig neu adeiladu yn eu cwrtilau gyn belled nad yw cynigion yn achosi niwed arwyddocaol i gymeriad pensaernïol neu hanesyddol arbennig yr adeilad(au) rhestredig. Nid oes unrhyw addasiadau i flaen yr adeilad ac felly bydd edrychiad trawiadol a gweddol unffurf blaen y rhesdai yn parhau i adlewyrchu'r gwerth grŵp fel y sonnir amdano yn y disgrifiad o'r rhestriad ac mae'r estyniad cefn yn gweddu gyda'r strydwedd ar ffurf debyg iawn i'r hyn a welir yno yn bresennol. Ystyrir felly fod y bwriad y cwrdd gyda gofynion Cylchlythyr 61/96 sy'n datgan: "wrth farnu effaith unrhyw addasiad neu estyniad, mae'n hanfodol asesu'r elfennau sy'n creu diddordeb arbennig yr adeilad o dan sylw", sef yn yr achos hwn, diddordeb grŵp y rhesdai.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatáu yn ddarostyngedig i dderbyn cadarnhad CADW ac i amodau perthnasol yn ymwneud gyda:

1. 5 mlynedd
2. Unol a'r cynlluniau
3. Llechi
4. Ffenestri a drysau newydd o wneuthuriad pren wedi paentio gyda lliw i'w gytuno
5. Ffenestri a drysau newydd gyda gwydr dwbl i fod o fath "slimlite" neu debyg
6. Ffenestri to o fath cadwraethol
7. Gorffeniad rendr calch gyda'r lliw i'w gytuno
8. Nwyddau dwr glaw o wneuthuriad haearn bwrw